# Asesiad Strwythuredig 2021 (Cam Un) – Trefniadau Cynllunio Gweithredol – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys


Blwyddyn archwilio: 2021

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2450A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol gan Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn rhan o'r gwaith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i'r Senedd ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliadau hynny o ran eu defnydd o'u hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae gan y ddau ohonynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddi unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2021

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw drydydd parti, mewn cysylltiad â'r adroddiad hwn.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r ymarfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn infoofficer@audit.wales.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Am yr adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 4

Adroddiad manwl

Maes a chwmpas Cynllun Chwarteri Tri-Pedwar 2020-21 6

Trefniadau ar gyfer datblygu cynlluniau gweithredol 7

Trefniadau ar gyfer monitro'r gwaith o gyflawni cynlluniau gweithredol 9

# Adroddiad cryno

## Am yr adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau Asesiad Strwythuredig 2021 yr Archwilydd Cyffredinol ar y trefniadau cynllunio gweithredol ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys (y Bwrdd Iechyd). Mae ein Hasesiad Strwythuredig wedi ei gynllunio i helpu i gyflawni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod yn fodlon bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2014.

2 Mae'n ofynnol i gyrff iechyd gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd i Lywodraeth Cymru yn flynyddol. Ym mis Ionawr 2020, cyflwynodd cyrff iechyd Gynlluniau Tymor Canolig Integredig, ar gyfer cyfnod 2020-2023, i'w cymeradwyo. Fodd bynnag, ataliodd Llywodraeth Cymru y broses er mwyn cymeradwyo Cynlluniau Tymor Canolig Integredig i ganiatáu i gyrff iechyd ganolbwyntio ar ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a gyflwynir gan bandemig COVID-19.

3 Nododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gylchoedd cynllunio byrrach ar gyfer cyrff iechyd sy'n cwmpasu 2020-21. Mae'r canllawiau'n nodi ystyriaethau allweddol o ran cynllunio, gyda'r gofyniad i gyrff iechyd lunio cynllun chwarter un erbyn 18 Mai 2020, cynllun chwarter dau erbyn 3 Gorffennaf 2020, a chynllun cyfunol sy'n cwmpasu chwarter tri a phedwar erbyn 19 Hydref 2020.

4 Roedd y fframwaith cynllunio ar gyfer chwarteri tri a phedwar 2020-21 yn cwmpasu'r gwaith o gynnal trefniadau cynllunio gweithredol effeithiol ac effeithlon mewn cyrff iechyd er mwyn arwain eu hymateb parhaus i'r pandemig yn ogystal ag ymateb i bwysau'r gaeaf a goblygiadau pontio yr UE. Mae angen i gyrff iechyd barhau i osod y sylfeini ar gyfer adferiad effeithiol y tu hwnt i 2020-21 hefyd.

5 Yn ein hadroddiad Asesiad Strwythuredig 2020, gwnaethom ystyried trefniadau cynllunio'r Bwrdd Iechyd ar gyfer datblygu cynlluniau chwarteri un a dau. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y trefniadau cynllunio a danategodd ddatblygiad cynllun gweithredol ar gyfer chwarteri tri a phedwar 2020-21.

## Negeseuon allweddol

6 Yn gyffredinol, canfuom **fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cynllunio gweithredol effeithiol sy'n seiliedig ar drefniadau da i ymgysylltu ag aelodau staff a'r cyhoedd, ac i fonitro'r dasg o gyflawni cynlluniau gweithredol.**

7 Cyflwynwyd Cynllun Chwarteri 3-4 y Bwrdd Iechyd i Lywodraeth Cymru o fewn yr amserlen ofynnol, mae'n cwmpasu'r meysydd angenrheidiol yng nghanllawiau'r fframwaith cynllunio a chraffwyd arno gan aelod annibynnol.

8 Mae trefniadau cynllunio gweithredol y Bwrdd Iechyd yn gadarn, a datblygwyd cynlluniau drwy ymgysylltu'n helaeth â staff a'r cyhoedd.

9 Roedd gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar gyfer monitro ac adrodd i'r Bwrdd am y cynlluniau gweithredol a gyflawnid, er bod y defnydd o gerrig milltir cyflawni wedi ei wrthod dros dro a oedd yn gwneud asesu drwy gymharu â'r hyn a gyflawnwyd yn anodd.

10 Nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion ar sail ar ein gwaith cam un o Asesiad Strwythuredig 2021.

# Adroddiad manwl

## Maes a chwmpas Cynllun Chwarteri Tri-Pedwar 2020-21

11 Ystyriodd ein gwaith faes a chwmpas Cynllun Diogelu’r Gaeaf 2020-21 y Bwrdd Iechyd sy’n nodi’r trefniadau ar gyfer Chwarteri Tri-Pedwar 2020-21 (Cynllun Chwarteri 3-4) yn unol â chanllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru.

12 Canfuom **fod Cynllun Chwarteri 3-4 y Bwrdd Iechyd wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru o fewn yr amserlen ofynnol, ei fod yn cwmpasu’r meysydd angenrheidiol yng nghanllawiau’r fframwaith cynllunio ac y craffwyd arno gan aelod annibynnol.**

13 Cynhyrchwyd Cynllun Chwarteri 3-4 a’r set ddata isafswm ategol mewn partneriaeth â chydweithwyr o Gyngor Sir Powys, y Cyd-fwrdd Partneriaeth, a’r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Cynhaliodd y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio sesiwn breifat yn y pwyllgor ar 6 Hydref 2020 i drafod Cynllun Chwarteri 3-4. Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad a ddilynwyd gan drafodaeth eang o’r manylion ac roedd gan aelodau annibynnol y dewis o ddychwelyd sylwadau ychwanegol all-lein.

14 Cyflwynwyd Cynllun Chwarteri 3-4 i Lywodraeth Cymru ar 19 Hydref 2020, fel drafft nes iddo gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd. Cymeradwyodd y Bwrdd Gynllun Chwarteri 3-4 ar 22 Hydref, sef y cyfle cyntaf i drafod y cynllun yn gyhoeddus oherwydd yr amserlen gywasgedig. Fodd bynnag, cynhaliodd y Bwrdd sesiynau cyfarwyddo rheolaidd i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r aelodau am ddatblygiad Cynllun Chwarteri 3-4.

15 Mae Cynllun Chwarteri 3-4 yn cwmpasu’r gofynion a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn Fframwaith Gweithredu GIG Cymru ar gyfer Chwarteri 3 a 4 (2020-21). Cwmpesir pob un o’r pedwar niwed ac mae cynlluniau sylfaenol wedi eu cwblhau gan gynnwys y Model Ymateb Clinigol diweddaredig, y Model Gwasanaethau Cymorth a’r Cynllun Atal ac Ymateb. Llenwodd y Bwrdd Iechyd holl feysydd perthnasol y set ddata isafswm.

16 Addasodd y Bwrdd Iechyd y canllawiau cynllunio i sicrhau eu bod yn gallu gwahaniaethu rhwng eu swyddogaeth o fod yn ddarparwr ac yn gomisiynydd gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion pobl Powys. Gweithiodd y Bwrdd Iechyd yn agos gyda sefydliadau sy’n darparu gwasanaethau a gomisiynir er mwyn sicrhau bod anghenion poblogaeth Powys yn cael eu cynnwys yn eu cynlluniau priodol.

17 Ochr yn ochr â Chynllun Chwarteri 3-4, cymeradwyodd y Bwrdd Gynllun Gofal Heb ei Drefnu y Gaeaf Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys ym mis Tachwedd 2020 sy’n nodi trefniadau i ateb y galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

18 Yn dilyn Cyfarfod Cynllunio a Sicrwydd Cyflawni'r Gaeaf ffurfiol ym mis Rhagfyr 2020, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at y Prif Weithredwr yn mynegi hyder bod gan y Bwrdd ddull da o ymateb i heriau’r gweithlu ac o ddarparu gwasanaethau sylfaenol a chymunedol, rhaglenni brechu torfol, Profi, Olrhain, Diogelu, a

threfniadau diogelu. Mynegodd Llywodraeth Cymru foddhad hefyd fod y Bwrdd Iechyd yn rhagweld sefyllfa ariannol o fantoli'r cyfrifon, yn ymgysylltu ac yn cefnogi'r gweithlu a'r trydydd sector yn dda, ac yn darparu modelau gofal newydd yng Ngogledd a De Powys.

## Trefniadau ar gyfer datblygu cynlluniau gweithredol

19 Ystyriodd ein gwaith drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer datblygu Cynllun Chwarteri 3-4 i gefnogi ei ymateb parhaus i COVID-19, cynnal gwasanaethau hanfodol ac ailddechrau gwasanaethau mwy arferol.

20 Canfuom **fod trefniadau cynllunio gweithredol y Bwrdd Iechyd yn gadarn ac y datblygwyd cynlluniau drwy ymgysylltu'n helaeth â staff a'r cyhoedd.**

21 Datblygwyd Cynllun Chwarteri 3-4 gan Grŵp Aur Strategol COVID-19 (y cyfeirir ato fel y Grŵp Aur yn yr adroddiad hwn) a ddechreuwyd ar ddechrau pandemig COVID-19 ym mis Mawrth 2020. Roedd pob Cyfarwyddwr Gweithredol yn aelod o'r Grŵp Aur ynghyd â swyddog cyswllt milwrol a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Oedolion a Phlant yng Nghyngor Sir Powys.

22 Adeiladodd Cynllun Chwarteri 3-4 ar gynllun Chwarter Dau cynhwysfawr a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2020 fel oedd yn ofynnol. Mae Cynllun Chwarteri 3-4 yn nodi cyflawniadau o ran darparu camau gweithredu cynllun Chwarter Dau ar gyfer pob un o'r pedwar niwed. Ar ddiwedd pob adran, ceir crynodeb o'r camau sy'n weddill o chwarter dau, er nad yw hyn yn nodi'r amserlen na'r cerrig milltir ar gyfer cyflawni.

23 Cynhaliodd y Bwrdd Iechyd ymgysylltiad helaeth â staff yn ystod haf 2020 er mwyn casglu eu profiadau o ffyrdd newydd o weithio yn ystod y pandemig. Darparodd y staff dros 300 tudalen o naratif a luniwyd mewn themâu mewn adroddiad **Rhannu mewnwelediadau a dysgu am ein hymateb i bandemig COVID-19 hyd yma**. Mae'r Bwrdd Iechyd yn awyddus i hybu pethau newydd a chynyddodd ei ystwythder wrth wneud penderfyniadau. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd y broses o gasglu gwersi a ddysgwyd yn parhau, ac roedd gwaith ar y gweill i nodi dysg am ffrydiau gwaith penodol, gan gynnwys sut y gallai dysg newid pwyslais a llywio uchelgeisiau tymor hwy. Mae ymgysylltiad â'r fforwm partneriaeth lleol wedi parhau bob wythnos/pythefnos ers dechrau'r pandemig, gydag ymgysylltiad cryf â chynrychiolwyr Undebau Llafur.

24 Mae gan y Bwrdd Iechyd wahanol ddulliau o ymgysylltu â chymunedau pan fo newidiadau i wasanaethau yn cael eu cynllunio. Cyn y pandemig, defnyddiodd y Bwrdd Iechyd grwpiau ffocws lleol i ymgysylltu â chymunedau, ond rhoes y rhain y gorau i weithredu oherwydd COVID-19. Mae'r Bwrdd Iechyd yn canfod ffyrdd newydd o weithio gyda'r cyhoedd a chynrychiolwyr o'r trydydd sector. Defnyddir y cyfryngau cymdeithasol yn helaeth a chafodd gwefan y Bwrdd Iechyd ei hailwampio y llynedd gyda dolenni i strategaethau a chynlluniau y Bwrdd Iechyd. Roedd y Prif Weithredwr yn bresennol yn nigwyddiadau'r Cyngor Tref a Chymuned

ac mae wedi cynnal sesiynau holi ac ateb cyhoeddus ar-lein yn rheolaidd. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn ymgysylltu â gwleidyddion lleol sy'n rhannu pryderon a godwyd gan etholwyr am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac unrhyw newidiadau arfaethedig i wasanaethau.

25 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio'n agos iawn gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned drwy gydol y pandemig. Cyfarfu'r Bwrdd Iechyd â chynrychiolwyr o'r Cyngor Iechyd Cymuned o leiaf unwaith yr wythnos drwy gydol y pandemig i sicrhau bod llais y cyhoedd yn cael ei glywed. Ym mis Awst 2020, cynhaliodd y Bwrdd Iechyd weithdy ar-lein ar gyfer yr holl aelodau Cyngor Iechyd Cymuned, a oedd yn gyfle i rannu'r fframwaith ar gyfer Cynllun Chwarteri 3-4 ac i aelodau'r Cyngor Iechyd Cymuned gyfrannu at ddatblygiad y cynllun.

26 Mae'r Bwrdd Iechyd yn awyddus i gryfhau ei ymgysylltiad â chleifion a gofalwyr. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y bu angen adnewyddu'r fframwaith profiadau cleifion ers peth amser, ac mae hyn wedi ei nodi yn y fframwaith ansawdd clinigol. Yn ddealladwy, gohiriwyd y gwaith o ddiwygio'r dull o gasglu ac o ddysgu o brofiadau cleifion oherwydd y pandemig, ac mae angen ei ddatblygu'n gyflym erbyn hyn. Bydd ein hadolygiad ansawdd llywodraethu yn darparu rhagor o fanylion am y trefniadau hyn.

27 Mae'r trefniadau cynllunio wedi cryfhau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae gan y Bwrdd Iechyd dîm bach sy'n ymroddedig i gynllunio ac sydd wedi gweithio'n galed i lwyddo i ddatblygu cynlluniau amserol sy'n cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru. Yn ystod y pandemig, atgyfnerthwyd y tîm cynllunio â Chyfarwyddwr Cynorthwyol Dros Dro y Gwasanaethau Cymorth i gefnogi'r rhaglenni brechu torfol a phrofi. Cafodd staff eu hadleoli o dîm Rhaglen Gogledd Powys hefyd er mwyn darparu capasiti canolog ychwanegol, a chwaraeodd Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Rhaglen ran allweddol yng nghynllun Chwarter Dau.

28 Fel y nodwyd yn ein hadroddiad asesiad strwythuredig 2020, atgyfnerthwyd mewnbwn clinigwyr i'r broses gynllunio ar ddechrau'r pandemig drwy sefydlu grŵp arweinyddiaeth glinigol. Mae Cyfarwyddwr Meddygol newydd yn ei swydd bellach, sy'n darparu arweiniad ar gyfer y model ymateb clinigol.

29 Ochr yn ochr â chyflawni cynlluniau chwarterol 2020-21, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ganolbwyntio ar gyflawni strategaeth iechyd a gofal deng mlynedd Powys, a Chynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd 2020-2023. Yn ogystal â'r cynlluniau chwarterol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddatblygu ei 12 blaenoriaeth strategol y cytunwyd arnynt ym mis Gorffennaf 2020 ac a ddiwygiwyd ym mis Tachwedd 2020. Roedd y 12 maes allweddol hyn yn cynnwys newid agoriad Ysbyty Athrofaol i ddyddiad cynt yn rhan o Gynllun De Powys, Rhaglen Gogledd Powys, yr academi iechyd a gofal, achos busnes llawn Machynlleth ac achos busnes Rhaglen Llandrindod. Bu angen i'r amgylchedd ffisegol newid yn sylfaenol oherwydd yr angen cynyddol am le oherwydd ymbellhau cymdeithasol, gwelliannau o ran awyru a rhagor o gyflenwad ocsigen.

30 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymgymryd â gweithgarwch sylweddol i ddatblygu'r Cynllun Blynyddol gofynnol ar gyfer 2021-22. Roedd sesiwn ddatblygu'r Bwrdd ym

mis Rhagfyr 2020 yn nodi dysg o waith y pandemig yr oedd y Bwrdd Iechyd wedi ei wneud gyda staff, a golwg manwl ar berfformiad y darparwyr a'r gwasanaethau a gomisiynwyd. Hysbyswyd y Bwrdd y byddai Cynllun Blynyddol 2021-22 yn canolbwyntio ar ddatblygu rhaglen waith sy'n seiliedig ar ddulliau system gyfan, megis atal ac atebion eraill, ymestyn y capasiti, sicrhau ansawdd a diogelwch gwasanaethau, a defnyddio atebion digidol a gwybodeg.

31 Trafodwyd y dull cynllunio yn un o gyfarfodydd y Bwrdd ym mis Ionawr 2021 a rhoddwyd sicrwydd ynghylch sut y byddai'r Bwrdd Iechyd yn mynd i'r afael â gofynion cynllunio Llywodraeth Cymru.

## Trefniadau ar gyfer monitro'r gwaith o gyflawni cynlluniau gweithredol

32 Ystyriodd ein gwaith drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer monitro ac adrodd ar gyflawni Cynllun Chwarteri 3-4.

33 Canfuom **fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar gyfer monitro ac adrodd i'r Bwrdd am y cynlluniau gweithredol a gyflawnid, er bod y defnydd o gerrig milltir cyflawni wedi ei wrthod dros dro a oedd yn gwneud asesu drwy gymharu â'r hyn a gyflawnwyd yn anodd.**

34 Diweddarodd y Bwrdd Iechyd ei Fframwaith Llywodraethu Pandemig COVID-19 2020-21 ym mis Hydref 2020 a'i rannu â'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2020. Mae'r fframwaith hwn yn nodi'r trefniadau ar gyfer monitro'r broses o weithredu Cynllun Chwarteri 3-4 drwy'r Grŵp Cydgysylltu Cyflawni. Cadeirir y Grŵp Cydgysylltu Cyflawni gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad ac mae'n adrodd i'r Grŵp Aur. Caiff y Grŵp Cydgysylltu Cyflawni wneud penderfyniadau gweithredol, yn unol â Chynllun Cadw a Dirprwyo Pwerau i Gyfarwyddwyr Gweithredol y Bwrdd Iechyd. Cedwir pob penderfyniad strategol ar gyfer y Grŵp Aur.

35 Swyddogaeth y Grŵp Cydgysylltu Cyflawni yw goruchwylio'r dasg o gyflawni'r cynllun a chydlynu'r camau a gymerir gan y Bwrdd Iechyd i gyfyngu ar effaith unrhyw amhariad ar barhad busnes. Mae'r Grŵp Cydgysylltu Cyflawni yn cydlynu'r gwaith monitro ac adrodd ar berfformiad, cyfathrebu ac ymgysylltu, olrhain newidiadau i wasanaethau, cysylltu â'r Cyngor Iechyd Cymuned, cysylltu â gwasanaethau a gomisiynwyd ac Ymddiriedolaeth GIG Ambiwlans Cymru.

36 Goruchwylir y gwaith o gyflawni'r Cynllun Atal ac Ymateb gan y Grŵp Goruchwylio Strategol ar gyfer Atal ac Ymateb. Yn benodol, mae'r Grŵp Goruchwylio Strategol yn cael adroddiadau i gefnogi'r gwaith o oruchwylio'r rhaglenni brechu torfol a Phrofi, Olrhain, Diogelu, adroddiadau sefyllfa y dangosfyrddau perfformiad (SITREP), gweithgareddau sy'n gysylltiedig â rheoli ac atal digwyddiadau. Mae Grŵp Cyflawni a Pherfformiad y Pwyllgor Gweithredol yn gyfrifol am ddatblygu ac adolygu perfformiad ar gyfer gwasanaethau a ddarperir ac a gomisiynir. Darperir sylwadau lefel uchel i'r Bwrdd yn rhan o adroddiad y Pwyllgor Gwaith.

37 Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf ym mis Ionawr 2021 am y cynnydd o’i gymharu â chyflawni Cynllun Chwarteri 3-4. Darparwyd diweddariad manwl ar berfformiad hefyd. Mae’r dogfennau’n nodi’r cyflawniadau allweddol o’u cymharu â phob un o’r camau gweithredu sydd yng Nghynllun Chwarteri 3-4. Fodd bynnag, roddwyd y gorau i ddefnyddio cerrig milltir cyflawni dros dro fel y gwnaed yn flaenorol er mwyn galluogi’r Grŵp Aur i ddefnyddio dull monitro mwy ystwyth. Roedd diffyg cerrig milltir cyflawni yn golygu nad oedd yn glir a oedd camau gweithredu ar y trywydd iawn tuag at eu cyflawni yn amserol ai peidio. Mae cerrig milltir wedi eu hadfer ar gyfer Cynllun Blynyddol 2021-22, ond nid oedd yn glir ychwaith a oedd camau gweithredu wedi eu cwblhau neu a oedd angen mwy o waith. Wrth symud ymlaen, byddai’r adroddiad cynnydd yn elwa hefyd o ddarparu crynodeb o gamau lliniaru pan fo’r ddarpariaeth yn mynd oddi ar y trywydd iawn.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.